

Yr her o newid a pharhad

Cymanfa Gyffredinol Eglwys
Bresbyteraidd Cymru,
20–21 Medi 2021

Ym mhob cyfnod, gellir olrhain digwyddiadau o fewn yr Eglwys ac o'r tu allan sy'n achosi newidiadau sylweddol, neu 'syfliad paradeim' (*paradigm shift*). Mae'n llawer rhy gynnar i honni bod y cyfnod hwn yn un o'r rheini.



Parch. Marcus Wyn Robinson, Llywydd
Cymanfa Gyffredinol EBC ers 2019.

Oherwydd natur unigryw y cyfnod hwn, mae gwybod yn union beth sy'n digwydd ar lawr gwlad, sut y mae ein haelodau'n ymateb a beth fydd canlyniadau hyn yn y tymor hir yn ddirgelwch i raddau helaeth, ac nid yw patrwm bywyd wedi'r pandemig yn un y medrwn ei rag-weld ar hyn o bryd. Yn sicr, mae yna newidiadau syfrdanol wedi digwydd mewn cyfnod byr iawn, ac mae'r newidiadau hyn wedi effeithio'n sylweddol ar ein gweinidogaeth. Er ein bod yn ffocysu ar y newidiadau corfforaethol, yn ddiaw mae'r effaith fwyaf ar fywyd ein heglwysi.

Wedi nodi hyn, yr ydym yn cynnal rhai egwyddorion sylfaenol:

- mae ein Duw yn anghyfnewidiol;
- mae ein Harglwydd Iesu yn parhau i fod yn oleuni'r byd;
- rydym yn parhau i fyw yn oes yr Ysbryd;
- mae'r comisiwn mawr yn parhau i'n herio;
- mae Duw yn wrandawr gweddi, ac
- mae'n parhau i alw pobl i berthynas ag ef.

Mewn byd sydd wedi newid yn gyflym, mae bywyd yr eglwys wedi newid, mae gweinidogaethu wedi newid, a braint y Cyfundeb yw ymateb i'r newidiadau hynny, gan geisio diogelu ein hegwyddorion sylfaenol mewn cyd-destun sydd yn wahanol iawn i'r hyn oedd yn bodoli yn mis Mawrth 2020.

Wrth i ni baratoi ar gyfer y Gymanfa eleni, rydyn ni'n gwneud hynny wedi ein calonogi gan yr adnod y mae ein Llywydd wedi ei dewis i fod yn thema inni – 'Digon i ti fy ngras i'. Mae ein heglwysi wedi byw trwy gyfnod cythryblus, ond rydyn ni'n gwybod ei fod wedi bod yn amser cythryblus a heriol i filiynau o bobl. Mae'n parhau i fod felly, ac rydym yn ei ystyried yn anrhydedd ac yn



EGLWYS
BRESBYTERAIDD
CYMRU

CYFARFODYDD CYHOEDDUS / RHITHIOL
Y GYMANFA GYFFREDINOL

20-21 Medi, 2021

Capel Seilo, Caernarfon ac yn Rhithiol

Prynhawn Llun, 20 Medi

5.15pm

LANSIO APÊL CYMORTH CRISTNOGOL
EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU 2022

Nos Lun, 20 Medi

7.30pm

GWASANAETH CYMUN A CHOFFÂD

I Bregethu: Parchg. Ddr Elwyn Richards, BA, BD, Caernarfon

Dydd Mawrth, 21 Medi

11.45am

Y DDARLITH DAVIES

Darlithydd: Parchg. Eric Jones, BD, Bangor

Testun:

'Ysbrydoledd mewn Ysbyty'

2.15pm

LANSIO CYNLLUN GOLUD—TRYSORI FFYDD MEWN DEMENTIA

3:00pm

DARLITH Y GYMDEITHAS HANES

Darlithydd: Yr Athro Iwan Rhys Morus

Testun:

'Y Pêr Wyddonydd: William Williams a'i Ddiwinyddiaeth Naturiol'

7.30pm

ARAITH YMADAWOL Y LLYWYDD

Y Parchg. Marcus Robinson, BD, RN, Caernarfon

TROSGLWYDDO'R LLYWYDDIAETH

Y Parchg. T. Evan Morgan, BD, Caerdydd

YR HOLL GYFARFODYDD I'W CYNNAL YN DDWYIEITHOG AC YN RHITHIOL—
Cod—81851908792—Passcode—884813

fraint ceisio dirnad yr hyn y mae Duw yn ein galw i fod o fewn ein cymunedau, yn ein gwlad, ac fel tystion mewn byd sy'n gweiddi am gyfiawnder, cydraddoldeb, hawliau ac, yn fwy sylfaenol, anghenion sylfaenol fel bwyd, dillad a lloches.

Bydd y Gymanfa Gyffredinol eleni'n cyfarfod yn Seilo, Caernarfon, a thrwy gyswllt rhithiol y we. Bydd cynrychiolwyr yn [\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Yr her o newid a pharhad

(parhad o dudalen 1)

derbyn y dolenni priodol i fedru ymuno yn y trafodaethau mewn da bryd. Yn ychwanegol, mae'n bosibl i bob gweinidog a blaenor yn y Cyfundeb wneud cais i'r swyddfa am gopi o'r papurau a'r dolenni Zoom i'r cyfarfodydd busnes. Fe garwn bwysu arnoch i ymuno yn y cyfarfodydd cyhoeddus arferol er mwyn rhannu yng nghyfoeth ein darpariaeth eleni. Gwelir y manylion ar y poster sydd i'w weld ar y dudalen flaenorol.

Ynystod y Gymanfa Gyffredinol byddwn yn ystyried ein Heglwys ein hunain a'i strwythurau, gan edrych ar ein blaenoriaethau mewn Gweinidogaeth a Chenhadaeth, a byddwn yn edrych allan hefyd. Bydd ein hapêl bum mlynedd i Gymorth Cristnogol yn cael ei lansio; bydd hon yn canolbwyntio ar yr Argyfwng Amgylcheddol, yn enwedig fel y mae'n effeithio ar

Kenya a Haiti yn benodol. Byddwn hefyd yn cynnig ein polisi amgylcheddol ein hunain, lle byddwn yn cael ein herio i flaenoriaethu'r anghenion a'r blaenoriaethau yn lleol. Bydd lansiad rhaglen Golud, gyda'i phwyslais ar feithrin ffydd yng nghyd-destun dementia. A bydd yn rhaid i ni bwysu a mesur ein hadroddiadau ariannol, ein hadroddiad ystadegau a sut rydym yn llywio cwrs trwy'r effaith a gafodd y cyfnod hwn ar ein heglwys yn lleol.

Gweddïwch am ddirnadaeth, am barodrwydd i feddwl a gweithredu'n aberthol, ond yn bennaf oll, i gael ein canfod yn ffyddlon yn ein cenhedlaeth ni.

Meirion Morris

Ysgrifennydd Cyffredinol



Diolch a Diweddarau

Cynhadledd Cymorth Cristnogol ar Zoom

14 Medi, 10.30–11.30 (Cymraeg) a
15 Medi, 19.00–20.00 (Saesneg)

Cyfle i dîm Cymru ddiolch i gefnogwyr ac amlinellu cynlluniau gweddill y flwyddyn.

Cofrestrwch trwy'r dolenni
Eventbrite hyn:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/cynhadledd-diolch-a-diweddarau-tickets-166793404563>

<https://www.eventbrite.co.uk/e/thanks-and-thinking-ahead-conference-tickets-166798543935>

Newid Cyfeiriad

Cyfeiriad newydd y Parch Brian a Mrs Eirlys Wright yw:

7 Bryn y Bia Lodge,
Ffordd Bryn y Bia,
Llandudno LL30 3AX
Rhif ffôn: 01492 548321

Cydlynnydd Ysgogi Cefnogwyr Canolog Cymru



Mae rôl Cydlynnydd Ysgogi Cefnogwyr Canolog Cymru yn swydd allweddol o fewn tîm Cymru Cymorth Cristnogol. Y deilydd fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer nifer o unigolion, eglwysy a chymunedau sy'n cefnogi Cymorth Cristnogol yng Nghymru, wrth i Gymorth Cristnogol adeiladu mudiad i fynd i'r afael â thlodi a'i achosion. Byddwch yn cefnogi ac yn ysbrydoli ein cefnogwyr o amgylch Cymru i roi, gweithredu a gweddïo dros ein gwaith, yn ogystal â'n helpu i gynyddu ein sylfaen o gefnogwyr, amrywio sut mae cefnogwyr yn cysylltu â ni a dylanwadu ar brosesau Cymorth Cristnogol er mwyn gwella gofal cefnogwyr.

Cyflog: £26,739, yn ogystal â lwfans gwyliau hael, benthyciad tocyn tymor a hyblygrwydd fydd yn golygu y byddwch yn mwynhau cydbwysedd bywyd/gwaith da.

Byddwch wedi eich lleoli yn y swyddfa yng Nghaerdydd. Am fwy o wybodaeth, ewch i: <https://jobs.christianaid.org.uk/> neu, i drafod, cysylltwch â Helen Roach, helen@cymorth-cristnogol.org neu 029 2084 4646

Dyddiad cau: 20 Medi 2021



Sul, 12 Medi – Canadaeth y Cysegr, 7:30yb a 4:30yp
Non Vaughan Williams fydd yn dathlu ac yn cofio cyfraniad emynwyr a chyfansoddwyr gafodd eu geni neu a fu farw ganrif yn ôl.

Sul, 12 Medi – Oedfa Radio Cymru, 12:00yp
Gwasanaeth yng ngofal Jennie Hurd, Synod Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd

Lle i enaid gael llonydd

Mae Fenis wastad yn wanwyn i mi, fel symudiad y Gwanwyn yn nymhorau'r cerddor Vivaldi. Ond mae 'na freuder a chadernid yn y ddinas ei hun, ac ynom ni i gyd fel pobl. Dwi am fynd â chi heddiw i ddau le yn y ddinas. Tystio i enedigaeth Iesu wna'r cyntaf. Ac yna, yn yr ail leoliad, cawn ein tywys i ddathlu tywalltiad yr Ysbryd Glân ar yr Eglwys. Safleoedd ydynt yn y ddinas ryfeddol hon sy'n arwyddocaol i mi.



Llun trwy ganiatâd Jean-Pol GRANDMONT

Ar Ynys San Giorgio gyda'i chlochdy treiddgar, ceir llun arbennig o'r Geni a esgorodd ar gerdd fechan o'r enw 'Y Baban'. Peintiad Jacopo Da Bassano o'r flwyddyn 1582 ydyw – *Nativita e Adorazione Dei Pastori* (Y Geni a gwrogaeth y bugeiliaid). Mae'r ynys yn eich wynebu wrth syllu yn syth ymlaen dros y lagŵn o Sgwâr San Marc. Ewch ar gwch i Ynys San Giorgio, mynd i mewn i'r eglwys a throi ar y dde, fe ddowch chi at ddarlun trawiadol o'r Geni. I'w weld yn iawn, rhaid i chi roi arian yn y blwch sy'n rhoi llifolau dros dro ar y cyfan cyn diffodd. Defnyddiais hyn yn y gerdd; yn aml, mae ein bywydau ni o ddydd i ddydd yn rhoi ambell fflach i ni ar y gwirioneddau mawr. Cawn awr fawr o frwdfrydedd, cyn i ni fodloni ar y darlun mwy arferol. Ond yno drwy'r cyfan, y da a'r drwg, mae'r Baban hwn a Mair, ei fam.

Y Baban

Goleuo'r Crud
a'i wynebaw liw nos ...
Angylion gloyw
ac wynebaw bugeiliaid y cysgodion
yn cael eu datguddio gan y disgleirdeb.

Hyn cyn i'r ewros
glicio i ben,
ac i bawb lithro'n ôl i'r tywyllwch.
Pawb ond y Baban,
ac ychydig o lewyrch
ar wyneb addfwyn Mair.

Un o'r delweddau enwocaf o Fenis yw Eglwys Santa Maria della Salute, a rhoi iddi ei henw llawn. Mae'n eglwys hardd ac amlochrog ac i'w gweld ar bob delwedd weledol o'r ddinas yn ddieithriad. Daw bobl at 'Salute', fel y cyfeirir ati'n annwyl, wrth ddod o sawl cyfeiriad a thueddiad crefyddol gwahanol. Deil yr eglwys hon i fflachio golau gobaith, hyd yn oed yn y nos ddu.

Fe'i hadeiladwyd fel arwydd o ddiolchgarwch i'r Forwyn Fair ar ddiwedd pla dychrynlyd 1630, ac fe geir gŵyl flynyddol ar 21 Tachwedd i dalu gwrogaeth i frenhines eglwysy Fenis. Ac oddi mewn iddi ceir y peintiad trawiadol o'r *Spirito Santo*, yr Ysbryd Glân yn cael ei dywallt arnom fel dynoliaeth. Hwn oedd y symbol ar faner i'r milflwyddiant yn y ddinas yn 2000.



Llun: Wiki commons

Tizano a'i peintiodd yn 1546, ac mae yr un mor drawiadol a pherthnasol heddiw. Mae'n cyfleu ofn, rhyfeddod, ansicrwydd derbyn y tafodau tân, a'r bobl yn siarad holl ieithoedd y byd. Mae'r llun yn dal i sibrwd yn eglur drwy'r canrifoedd, na wyddom ninnau yn ein byd modern nemor ddim – er ein holl dechnoleg – am ryfeddod ac agosrwydd y Duwdod atom. Ond yn sicr roedd yr Hen Feistri yn nyddiau'r Dadeni wedi ei deall hi, ac mae eu delweddau yn dal i siarad â ni heddiw.

Wrth iddi fachludo ar eglwys Salute, mae'r haul yn diferu fel yr Ysbryd Glân yn y llun, ar gromen enwog y ddinas, ac ar ardal hyfryd Dorsoduro. Yr Ysbryd Glân sy'n sicrwydd, ac yn gynnig i bob un ohonom.

Aled Lewis Evans



Y Silff Lyfrau



Y Parchedig George Emlyn Jones: Achubwr y Goleuni yw teitl dwy gyfrol gan Arwel Emlyn, sy'n deyrnged i'w dad ac un o weinidogion mwyaf cymeradwy ein Cyfundeb, sef y diweddar Barch George Emlyn Jones.

Mae Arwel yn hen gyfarwydd i ni fel bardd sydd wedi ennill gwobrau, tarianau a chadeiriau mewn eisteddfodau mawr a bach, gan gyfoethogi ein papur bro, *Y Bedol*, yn gyson â'i waith, yn arbennig wedi iddo ymddeol. Y gynghanedd sy'n mynd â'i fryd yn bennaf, ond mae yr un mor gynhyrchiol bellach yn y mesur rhydd, fel y gwelir yn ei gyfrol gyntaf o'r ddwy, *Cerddi Atgof* (40tt), sef ei gofiant barddol i'w ddiweddar annwyl dad, y Parch George Emlyn Jones. *Dyfyniadau a dywediadau* (70tt) o bregethau ei dad sydd yn yr ail gyfrol, cyfrol sy'n dangos fod yr elfen farddol yn perthyn i'w dad yn ogystal, gyda'i hoffter o'r gymhariaeth fachog, a lliwgar ar dro. Yn anaml iawn y cewch chi ddwy gyfrol yn cael eu cyhoeddi fel gefeilliaid, neu fel llaw a maneg, ond dyna fenter gyhoeddi ddiweddaraf Arwel.

Yn y gyfrol o ddyfyniadau cyfoethog ac amrywiol cawn bortread o'r pregethwr a'i ffordd o gyflwyno'i neges. Dyfynnir emynau ac adnodau, yn ogystal â dyfyniadau gan awduron amrywiol fel Awstin Sant, beirdd fel Cynan a Gwenallt, a phregethwyr megis J W Jones, Conwy. Cawn englynion, dywediadau, hanesion, a chymariaethau amrywiol a chyfoethog iawn, ac wrth gwrs mae pob un yn hynod bwrpasol.

Hefyd, ceir ambell air o brofiad ac ambell stori ddifyr – y cyfan, wrth gwrs, er mwyn gyrru'r neges adre. Mae yma atgofion sy'n ddarluniau a sylwadau byw o eiddo'r Parch George Emlyn Jones ei hun. Mae ganddo bennau gwreiddiol a grymus i bregethau: 'crud gwag, croes wag a bedd gwag' (Pregeth ar yr Atgyfodiad). Brithir y gyfrol gan ddywediadau bachog, cofiadwy. Haera mai'r gwir ffocws yw:



'Nid gweld y Crëwr yn y cread ond y cread yn y crëwr.' O'i brofiad o Aber-soch a'r bad achub, gwnaiff y sylw trawiadol hwn: 'Yr un anoddaf ei achub yw yr un sydd yn ceisio achub ei hun!'

Cerddi Atgof yw'r fwyaf gwreiddiol ei chynnwys gan fod teyrnged dyner Arwel i'w ddiweddar dad ar yr un pryd yn rhyw fath o gofiant iddo. Mae'r teitl yn hynod addas, gan mai atgofion yr awdur ydynt ar adegau arbennig ym mywyd ei dad. Yn ogystal â thynerwch, mae dwyster a hiwmor tawel i'w gweld drwy'r gyfrol sy'n rhoi mynegiant i berthynas arbennig iawn rhwng tad a mab, ac mae cystudd ei dad yn datguddio dyfnder y berthynas arbennig honno.

Yn y gerdd gyntaf un, 'Groes', mae Arwel yn ein hatgoffa ni o'i dad yn cymhwyso enw pentref ei fagwraeth, sef y Groes, ger Dinbych, at Groes Crist:

A bod yn un o blant y Groes
Oedd ei neges hyd ei oes.

Y gerdd sy'n cyfleu un o argyhoeddiadau dyfnaf ei dad yw 'Yr Ymwrthodwr Cydwybodol', sy'n disgrifio ei safiad ef a'i ffrind, y Parchedig Eifion Jones, yn eu gwrthwynebiad cydwybodol i ryfel pan nad oedd gwneud y fath safiad yn dderbyniol gan lawer. Mynychodd y ddau

dribiwnal. Yn ganlyniad i hynny, caed eu gwainidog, Y Parch J H Griffith, oedd yn heddychwr ei hun:

Yn tynnu coes
A bygwth oes
O garchar o'i flaen,
Ond ymlaen yr aeth,
Ef ac Eifion, Cyfeillion.

Y canlyniad oedd treulio dwy flynedd yn coginio yn Ysbyty Llangwyfan:

A hynny yn golygu
Gallai goginio
Cinio Dydd Sul
Ar ôl bwydo y praidd.

Y gerdd sy'n cyfleu trobwynt ingol yn hanes afiechyd ei dad yw'r gerdd i Ward 19, Ysbyty Glan Clwyd, a'r broses hir o fedru cerdded eto gyda chymorth pulpud:

Ychydig hirach, bob dydd,
Megis cam ceiliog
Pulpud, pulpud fel arferai
bregethu ynddo!

Dyna Arwel eto yn rhoi tro i ystyron geiriau fel ei dad o'i flaen.

Credaf mai mantais fyddai pori yn y dyfyniadau yn gyntaf ac yna troi at y cerddi atgof, yn arbennig er mwyn gallu synhwyro bod peth o'r bardd ym mhregethau ei dad, a bod dychymyg creadigol y pregethwr i'w ganfod yng ngherddi'r mab.

Yn fonws, mae'r awdur wedi cynnwys lluniau yn y ddwy gyfrol, ond fod y lluniau *Cerddi'r Atgof* yn amlach am resymau amlwg. Dwy gyfrol i fyfyrion ynddynt a throi iddynt dro ar ôl tro. Ac fe ddiolchwn i'r awdur am y ddwy deyrnged deilwng iawn i'w dad. a wnaeth ddiwrnod da o waith dros Eglwys Iesu Grist fel un o blant y Groes.

Gellir cael copïau o'r cyfrolau drwy gysylltu ag: arweljone1234@gmail.com

John Owen
Rhuthun



O'r byd a'r betws Islamoffobia?



Llun: www.pxfuel.com/en/free-photo-xioag

Bu ugain mlynedd o ryfela yn Affganistan, a buom yn dystion i ddiwedd glo di-urddas yn ystod mis Awst. Mae'n amhosibl i ni amgyffred beth fydd yn digwydd i ddinasyddion y wlad i'r dyfodol, a beth fydd goblygiadau unrhyw rwygiadau pellach o fewn y wlad, ac yn ardal y Dwyrain Canol yn gyffredinol. Profwyd eto nad yw rhyfel a thrais yn datrys unrhyw beth yn y tymor hir. Delwedd ingol oedd gweld y trueiniaid ar faes awyr Kabul yn cerdded drwy'r ffos i geisio rhyddid. Ac roedd deall bod aelodau cerddorfa genedlaethol y wlad wedi cael eu gorfodi i losgi eu hofferynnau cerdd yn cyfleu bod harmoni a diwyllant wedi gorfod mynd i'r fflamau hefyd.

Wrth i filwyr y Taliban hawlio buddugoliaeth dros bresenoldeb milwyr gwledydd NATO, a'r Americanaid yn benodol, byddwn yn clywed mwy am Al-Qaeda, a'u dyhead i gael eu gweld fel corff sy'n cryfhau ar draws y byd. Eu cred hwy yw bod yna gynghrair Cristnogol-Iddewig sydd am ddifa Mwslemiaeth yn llwyr, a'u nod yw sefydlu gwladwriaethau sy'n dilyn deddfau Sharia. Maent yn cynrychioli adain fwyaf ffundamentaidd

Mwslemiaeth, a heb fawr o awydd i gydymdeimlo gyda'r adain fwy ryddfrydol o blith dilynwyr Islam. Dros yr ugain mlynedd diwethaf mae Al-Qaeda wedi ymosod ar fosciau'r Shias a'r Suffiaid, gan eu galw'n hereticaid.

Rydym yn gyfarwydd ag amrywiol enwadau Cristnogol, a gwyddom hefyd am safbwyntiau diwinyddol, gwrthgyferbyniol i'w gilydd yn y byd. Mae'r un peth yn wir ymhlith y Mwslemaid: mae rhai yn hynod dreisgar a chreulon, eraill yn fwy cymedrol a goddefol eu haggweddau.

Cawn ein herio i ofyn beth yw ffundamentaliaeth grefyddol, ac a oes perygl i'r corlannau mwyaf eithafol wawdio'r sawl sy'n gymedrol a chymodlon, a hynny ym mhob crefydd?

Ai'r gwrthbwynt i'r sawl sy'n sefyll ar dir ffundamentaliaeth yw bod yn bopeth i bawb, ond yn ddim i neb? Gall glastwreiddio daliadau i'r fath raddau droi argyhoeddiad yn rhywbeth diddim.

Nodwedd amlwg y ffundamentalwyr Mwslemaidd yw eu bod mor

argyhoeddedig eu bod yn amddiffynwyr y ffydd, fel nad ydynt yn barod i wrando na thrafod. Gwelwyd eisoes fod llwyddiant milwrol y Taliban wedi peri bod Hindwïaid yn India wedi troi yn erbyn y lleiafrif Mwslemaidd yn y wlad honno. Bydd Islamoffobia yn siŵr o ailgodi mewn sawl gwlad, ond prin fod y Taliban yn poeni gormod am hynny.


Wrth i fwy o eglwysi ailgydio yn eu harfer o addoli a chymdeithasu wyneb yn wyneb, bydd angen i ni fod yn ochelgar rhag bod yn Islamoffobig ein hunain. Yng Nghasnewydd, Caerdydd ac Abertawe, mae cynulliadau Islamaidd yn awyddus i barchu a chydweithio â Christnogion.

Ceisiwn weithio o blaid hynny, a pharchu didwylledd eu hargyhoeddiadau. Mae'r Parchg Aled Edwards wedi gwneud llawer i ddatblygu'r adnabyddiaeth a'r cydweithio hwnnw, a gweddiwn y bydd gwir anian y grefydd Islamaidd yn cadw draw rhag dilyn Al-Qaeda a mudiadau ffundamentaidd eraill Islam.

Denzil John
Caerdydd

Pedwarcanmlwyddiant Salmau Cân Edmwnd Prys (1621)

Bedair canrif union yn ôl fe gyhoeddwyd gwaith hynod bwysig yn hanes emynyddiaeth a chrefydd Cymru, *Llyfr y Psalmau*, wedi eu cyfieithu a'i cyfansoddi ar fesyr cerdd yn Gymraeg, sef Salmau Cân Edmwnd Prys, archddiacon Meirionnydd. Am tua dwy ganrif ar ôl eu cyhoeddi, y Salmau Cân oedd prif lyfr emynau Cymru: dyma garreg sylfaen ein hemynyddiaeth. Er mai dim ond dwy o'r Salmau Cân a gynhwyswyd yn *Caneuon Ffydd*, yn hanesyddol fe fu Salmau Prys yn bwysig yn addoliad ymneilltuwyd Cymru yn ogystal â'r eglwyswyr. Yn y llyfr emynau a gyhoeddodd y Methodistiaid Calfiniaid a'r Wesleaid yn 1927 fe gynhwyswyd 40 o'r Salmau Cân; yn llyfr emynau'r Methodistiaid Calfiniaid cyn hynny fe geid 100 ohonynt. Arwydd o fri'r Salmau Cân ymhlith yr ymneilltuwyd oedd bod amryw gasgliadau wedi eu cyhoeddi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cynnwys cyfuniad o Salmau Edmwnd Prys ac emynau Pantycelyn.



Wyneb-ddalen cyfrol Salmau Cân Edmwnd Prys, 1621

Creadigaeth y Diwygiad Protestannaidd oedd canu cynulleidfaol. Yn yr oesoedd canol yr offeiriad neu'r côr, nid y gynulleidfa, a ganai, ac yn Lladin y gwneid hynny. Yn sgil y syniad o offeiriadaeth yr holl saint y datblygodd yr arfer o ganu cynulleidfaol. Cyfieithodd Martin Luther emynau o'r Lladin, cyfansoddodd emynau gwreiddiol ei hunan, a hefyd emynau wedi eu seilio ar rannau o'r Beibl, gan gynnwys y Salmau. Ond John Calfin yng Ngenefa a fu'n gyfrifol am fri Salmau Cân. Credai ef yn gryf y dylai'r hyn a genid yn y gwasanaethau fod yn seiliedig ar yr Ysgrhythur. Cyhoeddwyd sawl mydryddiad Ffrangeg o rai o'r Salmau cyn cyhoeddi Sallwyr cyflawn yng Ngenefa yn 1562, gwaith Clément Marot a Théodore Beza. Dyma'r llyfr emynau Protestannaidd mwyaf poblogaidd a fu erioed.

Yn ystod teyrnasiad y frenhines Gatholig Mari (1553–8) daeth rhai o'r alltudion

Protestannaidd Seisnig mewn dinasoedd fel Frankfurt a Genefa yn gyfarwydd â chlywed canu Salmau mydryddol, a dod i ganu Salmau mydryddol Saesneg yn eu gwasanaethau hwy, gwaith y beirdd Thomas Sternhold a John Hopkins. Yn 1562, ar ôl esgyniad Elisabeth i orsedd Lloegr, cafwyd y Sallwyr mydryddol Saesneg cyflawn cyntaf, gwaith Sternhold a Hopkins yn bennaf. Fe gafwyd dros 800 argraffiad o'r gwaith hwn i gyd, ond beirdd digon symol oedd Sternhold a Hopkins: 'they had drank more of Jordan than of Helicon,' meddai un beirniad!

Yn 1559 rhoddodd Elisabeth ganiatâd i ganu Salmau mydryddol ar ddechrau ac ar ddiwedd y gwasanaethau eglwysig. Ond er i William Salesbury gyfieithu'r Salmau i'r Gymraeg yn 1567, nid oedd mydryddiad Cymraeg ar gael i'r eglwysi. Aeth sawl bardd – Siôn Tudur, Siôn Phylip, David Johns, a William Middleton – ati i fydryddu'r Salmau mewn cynghanedd, ond ymarferion llenyddol oedd eu hymdrechion hwy yn bennaf, nid Salmau i'w canu gan gynulleidfa oedd. Aeth James Parry ac Edward Kyffin ati i fydryddu'r Salmau ar fesurau rhydd, ond yr oedd mydryddiad Parry yn rhy dafodieithol i'w fabwysiadu yn yr eglwysi a chyn gorffen argraffu'r 50 Salm a luniodd Kyffin fe fu farw o'r pla yn Llundain yn 1603 ac fe gollwyd y rhan fwyaf o'i waith. Yr oedd sôn fod Edmwnd Prys wrthi yn llunio Salmau Cân mor gynnar â 1610, ond ni chyhoeddwyd ei waith tan 1621 pan oedd Prys erbyn hynny bron yn bedwar ugain oed. Campwaith ei henaint oedd y Salmau Cân.

Yr oedd Prys yn un o feirdd cynganeddol gorau ei oes, ond fe ymwrthododd â'r cynghanedd yn ei Salmau Cân, er mwyn cadw'n ffyddlon at ystyr y Salmau, er mwyn cynhyrchu fersiwn y gallai cynulleidfa oedd ei ganu, ac oherwydd y byddai penillion ar fesur rhydd yn haws i gynulleidfa oedd eu dysgu na cherddi caeth. Ar wahân i bump o'r Salmau, y mesur 8,7,8,7 a ddefnyddiodd Prys. Ymhlith yr eithriadau yr oedd Salm 100 lle defnyddiodd y mesur 8,8,8,8. Gellid canu'r mesur hwnnw ar y dôn wych a adwaenwn ni fel yr 'Hen Ganfed': yn yr achos hwn, poblogrwydd y dôn ar gyfer Salm 100 yng ngwasanaethau Eglwys Loegr a bennodd y mesur a ddewisodd Prys. Gyda Salmau Prys fe argraffwyd 12 o donau: y Salmau Cân oedd y llyfr Cymraeg cyntaf i gynnwys cerddoriaeth.

Yr oedd Prys wedi astudio Hebraeg ym Mhrifysgol Caer-grawnt ac arferid credu iddo gyfieithu'r Salmau yn syth o'r iaith honno. Ond dangosodd yr ysgolhaig Beiblaidd Dr Isaac Thomas yn 1978 mai mydryddu Salmau William Morgan o Feibl 1588 a wnaeth Prys yn bennaf, er iddo droi hefyd weithiau at



Cerflun o Edmwnd Prys ar gobeb cyfieithwyr y Beibl, Eglwys Gadeiriol Llanelwyr

Salmau William Salesbury yn Llyfr Gweddï Gyffredin 1567.

Yr oedd gan Prys gyflawnder o adnoddau Cymraeg ac fe gyfrannodd hyn at lwyddiant y Salmau yn eu dydd a'u cyfnod. Gallai dynnu ar gyfoeth Cymraeg y beirdd a hefyd ar eirfa iaith lafar rywiog ei oes. Yn anorod, fe aeth peth o'i eirfa yn ddieithr i oesoedd diweddarach (digwyddodd yr un peth yn achos Salmau mydryddol Ffrangeg Marot a Beza). Ond rhaid pwysleisio mor eithriadol boblogaidd fu'r Salmau Cân. Fe gyhoeddwyd 122 argraffiad ohonynt rhwng 1621 a 1889.

I'n hatgoffa o gamp Edmwnd Prys dyma ei fydryddiad o Salm 23 fel y'i cyhoeddwyd yn 1621. Fe welwch fod mân wahaniaethau mewn ambell linell rhagor fersiwn yr hen lyfr emynau (trueni na chynhwyswyd y salm hon yn *Caneuon Ffydd*). Yn nyddiaid Edmwnd Prys, wrth ganu fe gymerai'r dôn aceniad y geiriau. Pan ddaeth cerddoriaeth yn fwy rheolaidd fe ddacluswyd ambell linell gan olygyddion llyfrau emynau er mwyn gwneud eu canu'n haws:

Yr Arglwydd yw fy 'mugail clau,
ni âd byth eisiau arnaf:
Mi a gaf orwedd mewn porfa frâs
ar lan dwfr gloywlas araf.

Fe goledd f'enaid, ac a'm dwg
rhyd llwybrau diddrwg, cyfion:
Er mwyn ei Enw mawr dilys
Fo'm tywys ar yr union.

Pe rhodiwn (nid ofnwn am hyn)
yn nyffryn cysgod angau,
Wyd gyda mi, a'th nerth, a'th ffon:
ond tirion ydyw'r arfau:

Gosodaist fy mwrdd i yn frâs,
lle'r oedd fy nghâs yn gweled:
Olew i'm pen, a chwppan llawn;
daionus iawn fu'r weithred.

O'th nawdd y daw y doniau hyn
i'm canlyn byth yn hylwydd
A minnau a breswyliaf byth
a'm nÿth yn nhy yr Arglwydd.

Gruffydd Aled Williams

Affganistan – 20 mlynedd wedi 9.11.01

Yn wyneb sefyllfa ansicr iawn yn Affganistan ar hyn o bryd, mae nifer o fudiadau ac unigolion yn galw am weddi a gweithredu dros bobl y wlad.

Fe alwodd yr Aelod o Senedd Cymru Jane Dodds am awr genedlaethol o weddi dros Affganistan ar 2 Medi. Bu Jane Dodds yn gweithio gyda'r Cyngor Ffoaduriaid am nifer o flynyddoedd ac roedd yn awyddus i Gristnogion ddod at ei gilydd i weddi dros y sefyllfa, gan gofio am y rhai sy'n dal i ffoi oddi yno gyda dim, neu ychydig iawn, i'w henw a'r angen i gynnwys nodded a chroeso iddynt os cawn gyfle.

Fe dynnodd mudiadau Cristnogol ac unigolion fel yr Arglwydd George Carey, cyn-archesgob Caergaint, sylw at dynged y Cristnogion sydd bellach yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa fregus ac anodd eithriadol yn y wlad wedi i'r Taliban gadarnhau mai dan gyfraith Sharia y byddant yn gweinyddu'r wlad. Bu galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnwys Cristnogion y wlad ymhlith y rhai fydd yn agored i dderbyn nodded yma.

Cofiwn am lawer o weithwyr mudiadau dyngarol sy'n parhau i weithio yn Affganistan; yn eu plith mae gweithwyr y Groes Goch a rhai mewn cysylltiad â Chymorth Cristnogol (er nad o dan yr enw hwnnw), sydd wedi dewis aros yn y wlad ar ôl treulio pedwar degawd yno o dan bedair gweinyddiaeth wahanol.

Rhodddwyd pwyntiau gweddi defnyddiol gan y mudiad Open Doors (www.opendoorsuk.org) sy'n gweithio fel lladmerdyddion dros Gristnogion dan erledigaeth ledled y byd, ac fe'u rhoddir yma yn gymorth inni. (Mae rhagor i'w cael ar eu gwefan.)

Chwe ffordd y gallwn weddio dros Affganistan:

- **Gweddiwch am ddoethineb ynghylch sut i oroesi.** Gofynnwch i'r Arglwydd am arweiniad i bobl y wlad – yn enwedig ein brodyr a'n chwiorydd – ynghylch sut i ddelio efo'r croesholi a'r creulonderau yn y dyddiau i ddod.
- **Gweddiwch y bydd credinwyr yn derbyn y gofal bugeiliol sydd ei angen arnynt.**
- **Gweddiwch dros blant yn Affganistan.** Gweddiwch dros yr ysgolion a'r rhaglenni addysgol, y byddant rywfodd yn gallu gweithredu. A gweddiwch y bydd Duw yn cynnal y plant o ran eu gwerth a'u llesiant drwy godi rhai eofn a phroffwydol a fydd yn eu gwarchod a'u diogelu rhag pob math o gam-drin.
- **Gweddiwch am iechyd a lles.** Mae meddyginiaethau'n brin. Gweddiwch y bydd dŵr glân i'w gael yn y tapiau – os bydd llygru ar y dŵr yn y dinasoedd, bydd afiechyd a salwch yn ymledu.
- **Gweddiwch ar i fwyd fod ar gael ac yn fforddiadwy.** Mae pobl mewn trafferthion ar hyn o bryd oherwydd bod y cadwyni cyflenwi wedi eu torri; wrth iddyn nhw gael eu hadfer yn araf, mae chwyddiant a mynediad yn anhawster cynyddol. "Bydd y Taliban yn bwydo'u milwr, a ninnau wedyn," meddai ffrind lleol inni yno.
- **Gweddiwch y bydd Duw yn darparu gwaith** i'r gweithwyr a'r rhai sydd ar hyn o bryd heb incwm.

Datganiad i'r wasg am Affganistan gan GYMDEITHAS Y CYMOD

"Mae'r drychineb bresennol yn Affganistan yn ganlyniad ymyrraeth filwrol ugain mlynedd sydd wedi methu. Mae'r cyfrifoldeb ar lywodraethau UDA, gwledydd Prydain a gwledydd eraill NATO am fynd i ryfel nad oedd modd ei ennill. Dechrau'r gwrthdaro, nid sut y mae'n darfod, yw'r broblem."

Dyna eiriau agoriadol datganiad ar Affganistan a ryddhawyd ar 16 Awst gan y Glymblaid 'Rhoi Terfyn ar Ryfel' (*Stop the War*). Mae [Cymdeithas y Cymod](#) yn perthyn i'r glymblaid hon.

Mae 'Rhoi Terfyn ar Ryfel' yn cynrychioli ystod eang o fudiadau a sefydliadau gwleidyddol a chymdeithasol. Pan ffurfiwyd y Glymblaid ym Medi 2001, rhybuddiodd yn erbyn rhuthro i ryfel gan annog dulliau eraill o ymateb i ymosodiadau terfysgol 9/11.

Yn benodol, dadleuwyd na fyddai meddiannu Affganistan yn filwrol yn arwain at lywodraeth sefydlog, ac y byddai'n cael ei wrthod fel ymyrraeth dramor gan lawer yn Affganistan.

Yn ogystal â 'Rhoi Terfyn ar Ryfel', haerid Cymdeithas y Cymod bryd hynny ac yn awr yw na ellir gorfodi democratiaeth na hawliau dynol o'r tu allan, ond mai fel canlyniad i ymdrechion y bobl eu hunain y gallai fod yn barhaol.

A dyfynnu o ddatganiad y Glymblaid 'Rhoi Terfyn ar Ryfel': "Mae'r ffaith fod byddinoedd UDA a gwledydd Prydain wedi'u trechu yn Affganistan yn golygu fod yr ymyrraeth yma, fel rhai Iraq, Syria a'r Yemen, yn drychineb sydd wedi colli degau o filoedd o fywydau ac adnoddau lawer i ddim pwrpas. Mae'n bryd i'r 'rhyfel yn erbyn terfysgaeth', yr esgus dros ymyrryd fel hyn, ddod i ben."

Mae Cymdeithas y Cymod yn cefnogi galwad y Glymblaid y dylai lywodraeth gwledydd Prydain arwain rhaglen i warchod y ffoaduriaid a chynnig iawndal i ailadeiladu Affganistan. Byddai gweithred o'r fath yn gwneud llawer mwy i hyrwyddo hawliau pobl Affganistan, merched yn arbennig, nag ymyrraeth filwrol neu economaidd yn nhynged Affganistan.

Rydym yn annog gwleidyddion o bob plaid i ddsygu o fethiant rhyfeloedd ymyrraeth a throi at gydweithio rhyngwladol fel modd o setlo pob anghydfod.

os nad oes galw amdanynt ar hyn o bryd. I'r perwyl hwn, byddem yn falch o dderbyn eich ymateb chi. Oes 'na alw am wers ar hyn o bryd? Oes 'na grwpiau oedolion yn cyfarfod neu'n bwriadu ailgychwyn yn fuan? Gyrrwch unrhyw ymateb at aled@ysgolsul.com, os gwelwch yn dda.

Cofiwch hefyd fod yna werslyfr newydd i blant ar gael, sef cyfres o wersi wedi'u creu ar y cyd â Chymorth Cristnogol, sef *Gwerslyfr Sach Cyfiawnder Duw*. Mae llawer o wersi newydd hefyd ar gael am ddim o wefan newydd y Cyngor, sef www.gair.cymru.

Aled Davies

Gwers yr ysgol Sul i oedolion – cais am arweiniad

Yn ystod tymor 2020/21 cawsom wers ysgol Sul yn cael ei pharatoi bob wythnos gan y Parch Denzil John, a hynny ar ffurf gwers wedi'i hargraffu yn y papurau enwadol, yn ogystal â ffilm oedd yn cael ei gosod ar YouTube gan Gyngor yr Ysgolion Sul. Er bod y ddarpariaeth yma wedi ei pharatoi'n wythnosol drwy gydol y flwyddyn, rydym yn ymwybodol iawn mai prin iawn oedd y dosbarthiadau oedolion a fu'n cyfarfod yn ystod y flwyddyn – os oedd yna rai o gwbl. Gan na lwyddwyd i wneud cyfiawnder efo'r

holl waith a wnaed gan Denzil, ein gobaith yw ailredeg y gyfres hon yn ystod 2022/23.

Ar gyfer Medi 2021, y bwriad yw dilyn cyfrol ddiweddar y Parch Gareth Lloyd Jones, sef *Dehongli Bywyd Abraham*. Fodd bynnag, cyn mynd ati i ddarparu nodiadau a chwestiynau wythnosol yn *Cenn@d*, rydym yn awyddus i glywed a oes dosbarthiadau oedolion wedi dechrau cyfarfod eto. Er mwyn gwneud cyfiawnder â'r deunydd, nid ydym am ddechrau'r gwersi'n rhy fuan,

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Gweld – a methu gweld

Gwedd

Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni;
plyg ni, trin ni, golch ni, cod ni:
Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni.
Amen.

(Caneuon Ffydd, 601)

Emyn 'Fy Nuw, fy Nhadau, fy Iesu'

Darllen

Marc 8:27-9:1

Doeddwn i ddim wedi bod yn y capel yn uchelderau sir Aberteifi ers deugain mlynedd, nac wedi bod ag unrhyw achos i deithio i'r ardal oddi ar hynny chwaith. Wrth adael y tŷ, roeddwn yn bur hyderus fy mod yn cofio'r ffordd. Ond ar fy nhaith dechreuais betruso gan amau nad oedd fy nghof cystal ag yr oeddwn yn ei dybio. Chwilio am y lleoliad ar y 'sat nav' oedd dechrau'r helynt.

Cefais fy nhywys gan y teclyn i lefydd diarffordd, hyd yn oed at gapel oedd wedi cau. Dim ond murddun gwag ar ôl. Er y cam gwag, roeddwn yn hyderus, os medrwn ddod o hyd i ryw nodwedd yr oeddwn yn ei gofio y byddwn yn medru dod o hyd i'r lleoliad. Ac i dorri stori hir yn fyr llwyddais i gyrraedd y capel mewn pryd, ac oedd, roedd yna gynulleidfa'n disgwyl amdanaf!

Peth rhyfedd yw bod ar goll a myrdd o ffyrdd culion yn croesi ei gilydd. Pob llwybr yn awgrymu ffordd i'n cyrchfan, a llawer yn ein harwain i nunlle! Er mor ddiddorol neu hardd yw pen draw pob un llwybr, dydyn nhw ddim bob amser yn ein tywys nac yn ein galluogi i ddod o hyd i'r trywydd i ben draw'r daith.

Mae Marc wedi dweud wrthym ar ddechrau'r efengyl mai gwybodaeth am 'ddechrau efengyl Iesu Grist, Mab Duw' yw cynnwys ei neges. Wrth droedio gyda Marc ar hyd y daith byddai'n hawdd iawn mynd i grwydro i fannau diarffordd ein dyfaliadau ein hunain. Ond mae Marc mewn modd clir a phwylllog yn arwain ei ddarllenwyr i ddod ac adnabod y newyddion da am ddyfodiad Iesu Grist, mab Duw, i'n byd.

Nid damweiniol ydyw ei fod yn cyflwyno'r adnabyddiaeth greiddiol sydd o'n blaenau heddiw gan gyfeirio at ddwy wyrth hynod. Dacw ŵr mud a byddar yn cael ei iacháu – ac yn cael ei rybuddio i beidio â dweud dim wrth neb (7:31 ymlaen). A dacw'r gŵr dall yn

Bethsaida a welodd yn rhannol – goed yn cerdded – cyn medru gweld yn eglur.

Yn awr, caiff y ddwy elfen yma eu hailadrodd yn yr adnodau sydd ger ein bron.

Gweld, llefaru, a mudandod ...

Yr ydym bellach tua hanner ffordd drwy efengyl Marc (o ran penodau). Wedi iddo arwain ei ddisgyblion ar daith o dros 60 milltir o Fethsaida, at gyrion Cesarea Philipi, mewn paratoad ar gyfer gweddill ei yrfa, ei groeshoeliad a'i atgyfodiad, mae Iesu'n holi pwy oedd y disgyblion yn meddwl oedd eu hathro, go iawn.

Nid cwestiwn i'w baglu oedd hwn. Roedd Iesu'n gwybod beth oedd yn eu calonnau, a faint oedd eu dirnadaeth ohono. Roedd Iesu'n gwybod eu bod wedi ei adnabod. Yn anffodus, doedd y disgyblion ddim wedi deall eu bod wedi ei adnabod!

Roedd eu dealltwriaeth yn amlwg yn fwy nag asesiad y cyhoedd ohono, er mor anrhydeddus oedd yr asesiad hwnnw. 'Ti yw'r Meseia', meddai Pedr, gan ateb ar eu rhan. Meseia – cyflawniad gobeithion, disgybnydd o linach Dafydd, brenin o benodiad Duw, Arglwydd ar deyrnas ddwyfol a gyrhaeddodd yn ei berson.

Rhybudd cyntaf Iesu i'r rhai a fynegodd eu ffydd oedd iddynt 'beidio â dweud wrth neb amdano'. Cyfrinach i'w choleddu ydoedd ar hyn o bryd. Deuai awr i'w chyhoeddi ymhen y rhawd.

Methu gweld

Ond yn y frawddeg nesaf mae'r 'gweld' yn troi'n 'aneglurder' wrth i Iesu ei hun ddechrau dysgu'r disgyblion am y camau nesaf oedd o'i flaen. Brad, camdriniaeth, marwolaeth ac atgyfodiad. Nid oedd unrhyw beth yn ddeniadol am y llwybr yr oedd ef a'i ddisgyblion yn mynd i'w gerdded yn ystod y misoedd oedd yn eu hwynebu. Ar hyd y canrifoedd, fel Pedr gynt, mae disgyblion Iesu wedi gwingo, a cheisio osgoi'r gair am y groes. Ond ni allwn osgoi'r neges gan fod Iesu wedi 'llefaru'r gair hwn yn gwbl agored'.

Cerydd a cherydd

Diau fod Pedr yn tybio'i fod yn amddiffyn ei Feseia wrth ei annog i beidio â dilyn y llwybr yr oedd Iesu wedi ei broffwydo. Wedi'r cwbl, pwy glywodd am Feseia'n dioddef?

Trodd Iesu ar Pedr a'i geryddu yntau – yn wir, ei gyhuddo o adrodd agenda Satanaidd. Onid oedd Satan wedi cynnig teyrnasoedd y ddaear iddo adeg ei demtiad? Teyrnas heb ddioddefaint? Awdurdod heb groes?

Mor ganolog oedd y groes a'r atgyfodiad i feddwl Iesu fel y medrai gyfeirio at y goncwest fel 'teyrnas Dduw wedi dyfod mewn nerth' (9:1)

Croesffordd ffydd (adn 34)

I'r disgyblion a fu yn ei gwmni am fisoedd lawer a'r dyrfa oedd gerllaw, eglurodd Iesu'n ddigyfaddawd fod y groes yn ganolog i lwybrau ffydd ei ddilynwyr. Nid i hawddfyd a sedd gyfforddus y caiff y Cristion ei alw, ond i lwybr o hunanymwadiad. Golyga codi croes a 'chanlyn fi' gerdded llwybr unfordd, cyhoeddus, gan wynebu dirmyg a phoen.

Mathemateg gras (adn 35-7)

Cawn ein cymell gan Iesu i wneud ein symys. Mae gras yn rhodd rad ac am ddim. Ond mae canlyn Iesu'n costio popeth. John Elliot, cenhadwr a merthyr, ddywedodd: 'He is no fool who loses what he cannot keep to gain what he cannot lose.'

Rhybudd (adn 38)

Mae'r deyrnas, a'r dyfodol, yn eiddo i Fab y Dyn (Daniel 7:13-14). Mae cydnabod hyn – heb gywilyddio am bwy yw Iesu, heb gilio oddi wrth ei eiriau, heb osgoi ei frenhiniaeth gerbron byd sy'n 'annuwiol' (h.y. yn gwadu hawl Duw i deyrnasu) a 'phechadurus' (h.y. yn gwrthryfela yn erbyn yr Arglwydd) – yn medru costio i'r eithaf. Menter ffydd yw credu ac ymlwynu wrth ein Harglwydd gan lwyr gredu na chawn ein cywilyddio pan gyflawnir ei Deyrnas yn dragwyddol.

Gwedd

Arglwydd Iesu Grist, yr hwn sy'n medru peri i'r drwg gilio, i'r mud lefaru, i'r dall weld dy ogoniant, caniatâ i ninnau heddiw, drwy dy Ysbryd Glân, dy ganfod a'th adnabod fel Meseia Duw. Rhyddâ ni i'th ganmol. Caniatâ i ni sy'n gweld 'coed yn cerdded' oherwydd aneglurder ein ffydd i'th ganfod, i'th adnabod ac i ogoneddu'r Tad. Caniatâ i ni weld dy groes fel buddugoliaeth ar Satan a'r bedd. A chaniatâ i ninnau fedru 'codi'r groes a'i chyfri'n goron' 'am mai croes fy Mhriod yw'.

Emyn 'Dilyna fy Mugail drwy f'oes'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)